



Iaith Fyw: Iaith Byw – Bwrw Mlaen

Cyflwyniad

Croesawn gyhoeddiad y datganiad polisi drafft hwn a'r ymdrechion a wneir ynddo i "alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau"

Credwn yn gryf, er fod cyfrifoldeb eang am sicrhau dyfodol y Gymraeg, bod rôl neilltuol gan Lywodraeth Cymru i arwain, hybu a chefnogi'r ymdrechion.

Yn arbennig, rhaid i Lywodraeth Cymru'n gymryd rôl arweiniol o ran cynllunio strategol, ac o ran sicrhau bod gwasanaethau y cynigir gan y Llywodraeth ei hun, a gan eraill, yn cael eu cynnig yn y ddwy iaith mewn modd rhagweithiol.

Gwell Cynllunio Strategol ar gyfer y Gymraeg

Mae llawer i'w croesawu yn yr adran hon, er y byddem yn croesawu mwy a fanylder a thargedau neu gamau gweithredu cliriach, mwy pendant.

Awgrymwn yn gryf bod angen methodoleg a fydd yn sicrhau bod gwaith polisi ar draws Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol yn **cymryd i ystyriaeth yr effaith ar y Gymraeg** – gyda'r nod o sicrhau effaith llesol, cadarnhaol.

Cytunwn y bydd dyfodiad y **Safonau** yn "gatalydd pwysig ar gyfer gwella sut mae sefydliadau yn ystyried datblygu sgiliau Cymraeg eu gweithlu". Bydd angen monitro cyson i sicrhau bod sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r Safonau, nid yn unig yn eu parchu a'u gweithredu'n llawn, ond yn symud ar hyd y continwmm o gryfhau eu hymrwymiad at ddarparu gwasanaethau Cymraeg, a hynny mewn modd rhagweithiol.

Cytunwn â'r pwyslais ar faes **sgiliau**, a'r cydnabyddiaeth bod angen sylw i'r Gymraeg ym mhob rhaglen a gefnogir gan Gronfeydd Strwythurol yr UE.

Mae **absenoldeb y Gymraeg o gyrsiau Addysg Bellach**, ac yn enwedig felly o feysydd galwedigaethol, yn broblem dirifol sydd angen sylw ar frys. Rhaid cadw golwg ar sut mae'r **system ariannu ôl-16** newydd yn effeithio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn dosbarthiadau 6 a cholegau fel ei gilydd. Mae'r diffyg darpariaeth yn torri ar ddilyniant ieithyddol pobl ifanc sydd am ddilyn trywydd galwedigaethol ac yn golygu bod pobl yn cyrraedd y gweithle â diffyg hyder i drafod eu maes gwaith yn y Gymraeg. Arweinia hyn at gylch dieflig, ble mae'r diffyg hyder yn arwain at ddiffyg gwasanaeth, a hynny yn ei dro yn arwain at sefyllfa ble nad yw'r cyhoedd yn disgwyl gallu cael y gwasanaeth yn y Gymraeg, ac felly ddim yn ei

fynnu. Sgileffaith arall i hyn yw prinder pobl i addysgu'r pynciau galwedigaethol hyn i'r cenedlaethau nesaf.

Croesawn ddarpariaethau'r Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, sy'n rhoi sail statudol i'r **Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg**. Byddwn yn cadw llygad ar y gyfundrefn newydd hon i weld pa mor effeithiol yw hi o ran gwella dulliau cynllunio, a sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cyrraedd eu targedau.

Mae'r consortia rhanbarthol yn faes y mae angen i Lywodraeth Cymru gadw llygad barcud arni, yn sgil y Model Cenedlaethol. Gwyddom fod diffygion difrifol o ran darparu cyrsiau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg mewn rhai consortia, a bod diffyg Ymgynghorwyr Her â'r lefel addas o arbenigedd a dealltwriaeth.

Cytunwn â'r angen i wella cynllunio darpariaeth Gymraeg mewn **addysg cyn-ysgol a gofal plant**. Fel gydag ysgolion, mae unrhyw ddatblygiad wedi bod yn llawer rhy ddibynol ar alw gan rieni a chymunedau, yn hytrach na fod yn rhagweithiol.

Croesawn yr ymrwymiad i **ehangu'r rhwydwaith o ganolfannau trochi ar gyfer hwyrddyfodiaid** - er y byddwn yn croesawu targedau a chynllun llawer fwy penodol.

Un elfen amlwg sydd ar goll o'r adran hon, ac yn wir o'r Datganiad Polisi yn ei gyfanrwydd, yw'r angen i weithredu ar frys i **sefydlu gwell systemau strategol ar gyfer cynllunio'r gweithlu addysg**, a hynny'n benodol o safbwynt gallu ymarferwyr i siarad Cymraeg, i ddysgu'r Gymraeg fel pwnc, ac i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r **diffyg systemau casglu a dadansoddi data** yn y maes hwn yn golygu nad oes sail o dystiolaeth trylwyr, manwl a dibynadwy ar gyfer cymryd penderfyniadau polisi ynghylch yr angen i sefydlu,

datblygu neu ehangu gwahanol fathau o hyfforddiant.

Os am symud ymlaen o ran polisiâu addysg, rhaid cael gweithlu addysg (yn athrawon ac yn gynorthwyr) sy'n gymwys i weithredu'r newidiadau, ac er mwyn sicrhau hynny, rhaid bod prosesau strategol ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn eu lle.

Byddai **pennu cyrsiau Hyfforddiant Cychwynol Athrawon cyfrwng Cymraeg** (a diffiniadau clir o'r cynnwys a'r safonau) yn fan cychwyn da. Ni fydd dyheadau'r Llywodraeth yn bosib heb sefydlu cyfundrefn o'r fath.

Byddai ehangu'r **Cwrs Sabothol** yn lwybr adeiladol arall,

Croesawn y bwriad i sicrhau newid sylweddol o fewn Llywodraeth Cymru. Yn benodol, mae angen i Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol gynyddu ei gallu i **gynllunio er budd y Gymraeg ar draws ei hadrannau a'i phortffolios** mewn dull tros-fwaol. Yn ogystal, mae angen iddynt **osod gwell esiampl i sefydliadau eraill o ran y defnydd o'r Gymraeg** yn y gweithle ac yn eu holl weithgareddau. Teimlwn y byddai rhoi **hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth ieithyddol** i'r gwasanaeth sifil, a swyddogion llywodraeth leol yn arf bwysig wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r rhain yn feysydd ble mae angen cychwyn ar y gwaith ar frys, a pharhau i ddatblygu dros y blynyddoedd i ddod, mewn modd wedi'i gynllunio'n strategol.

Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned

Gresynwn yn fawr at y toriad arfaethedig pellach i gyllidebau **Cymraeg i Oedolion** ar yr union adeg pan mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd y maes i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Gall Cymraeg i Oedolion fod yn un o'r strategaethau ar gyfer cynyddu nifer a hyder y

siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu addysg – a gweithluoedd strategol eraill, megis Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol. Teimlwn fod rheidrwydd ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'n fanwl, ac ar fyrder, sut y bwriedir gweithredu argymhellion yr adolygiad Cymraeg i Oedolion o fewn y cyfyngiadau cyllidebol eithriadol o lym.

Nodwn, a chroesawn, yr ail-ddatganiad o'r angen i ddiwygio'n llwyr y system o “**addysgu a dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg**”. Mae'r cyfle i ddod yn rhugl yn y Gymraeg yn fater o gydraddoldeb sy'n sicrhau cyfle cyfartal wrth gystadlu am swyddi yng Nghymru.

Mae adolygiad yr Athro Graham Donaldson ar waith. Fodd bynnag, rydym yn gadarn o'r farn fod maint y dasg o ddiwygio'r drefn, a'r brys i gychwyn ar y gwaith yn cyfiawnhau **prosesau sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r adolygiad ehangach o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu** – yn hytrach na phroses nad yw'n cychwyn o ddifrif tan ar ôl i'r adolygiad cyffredinol ddod i ben. Mae Sioned Davies ei hun yn awgrymu y byddai trosglwyddo o'r system gyfredol i system newydd yn cymryd tair i bum mlynedd. Yn sgil y canfyddiad o wastraffu amser, egni ac adnoddau prin dysgwyr a staff ym maes Cymraeg Ail Iaith, byddai oedi o'r fath yn gwbl annerbyniol.

Mae UCAC yn gefnogol i'r rhan fwyaf o argymhellion Yr Athro Sioned Davies. Yn benodol, credwn fod angen, dros gyfnod, sicrhau bod **continwmm ieithyddol** yn ei le, a bod disgyblion – ym mha bynnag categori o ysgol - yn gweithio ar hyd y continwmm, ar y lefel priodol ar gyfer eu sgiliau.

Credwn y byddai cyflwyno **elfennau o addysg cyfrwng Cymraeg, er enghraifft ar gyfer rhai pynciau, o fewn ysgolion cyfrwng Saesneg** yn ffordd ymlaen i feithrin sgiliau dwyieithog.

Byddai **gweithio tuag at Gyfnod Sylfaen cyfrwng Cymraeg** ledled Cymru, dros gyfnod, gan Gymreigio gam wrth gam ar hyd continwmm, yn nod eithriadol o adeiladol.

Un cam arall a fyddai'n cynnal, ac o bosib yn cynyddu'r niferoedd sy'n mynychu ysgolion llwyddo i greu disgyblion hyderus ddwyieithog, fyddai diwygio'r Mesur Teithio i Ddysgwyr, i **sicrhau fod dewis mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg yn rhan o'r diffiniad o 'ysgol addas agosaf'** – yn hytrach na gadael hynny i ddisgresiwn Awdurdodau Lleol, sy'n beryglus iawn ar adeg o gynni ariannol.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)